Cymryd y Risg: Yswiriant Atebolrwydd a Busnesau Bach yng Nghymru

Adroddiad gan Ffederasiwn y Busnesau Bach yng Nghymru

Ysgrifennwyd gan:

Ben Cottam
Swyddog Datblygu Polisi Cymreig
6 Heol Heathwood
Birchgrove
Caerdydd CF14 4XF

Tel: 02920 521230
Ffacs: 02920 521231
Ebost: walespu.policy@fsb.org.uk

© 2005 Ffederasiwn y Busnesau Bach yng Nghymru

Rhagarweiniad

Ffederasiwn y Busnesau Bach (FfBB) yw sefydliad busnes mwyaf y DU sy'n cynrychioli buddiannau dros 185,000 o'i aelodau ar draws y Deyrnas Unedig gyda thros 8,000 o'r nifer hynny wedi'u lleoli yng Nghymru. Mae FfBB yn bodoli er mwyn hyrwyddo a gwarchod buddiannau pawb sydd berchen ar/neu'n rheoli eu busnes eu hunain.

Ar hyn o bryd, mae Busnesau Bach a Chanolig (BBCh) yn cynrychioli mwyafrif llethol y busnesau sy'n gweithredu yng Nghymru. Ystyrir dros 98% o'r holl fusnesau yn y Dywysogaeth yn BBCh.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae cost anghyfartal a chynyddol Yswiriant Atebolrwydd Gorfodol Cyflogwyr (YAGC) wedi dod yn rhwystr sylweddol i dyfiant a datblygiad busnes ac mae hyn wedi arwain at fethiant y busnes yn achos nifer o fusnesau.

Gydag economi sydd mor ddibynnol ar iechyd y sector busnesau bach, mae angen go iawn i fynd i'r afael â'r fath faterion sy'n rhwystro eu llwyddiant. Y rheswm yma a nifer o bryderon a godwyd gan wleidyddwyr Cymreig a arweiniodd FfBB yng Nghymru i ymgymryd â'r arolwg byr hwn.

Canfu arolwg dylanwadol dwyflynyddol FfBB *Codi'r Rhwystrau i Dyfiant mewn Busnesau Bach Cymreig 2004* bryder eglur ac uniongyrchol o blith gweithredwyr busnesau bychain ynglŷn â baich cynyddol premiymau yswiriant. Dywedodd 68% o'r rhai hynny a holwyd ei bod yn cael effaith negyddol ar ddatblygiad eu busnesau.

Er nad yw'n fater sydd dan awdurdod datganoledig Cynulliad Cenedlaethol Cymru, mae gan y Cynulliad gyfrifoldeb am Ddatblygiad Economaidd yng Nghymru ac felly iechyd perthynol yr amgylchedd y mae busnesau bach Cymreig yn gweithredu. Datgenir yn gyson bod mater yswiriant yn fater o bryder sylweddol i fusnesau bach a rhwystr i'w tyfiant a'u cynaladwyaeth.

Mae'r adroddiad hwn yn adeiladu ar waith sylweddol a ymgymerwyd ar lefel y Du gan *Ffederasiwn y Busnesau Bach*. Mae FfBB eisoes wedi sicrhau newidiadau allweddol megis cynnig *Cymdeithas yr Yswirwyr Prydeinig* (CYP) sy'n sicrhau fod deiliaid polisïau yswiriant atebolrwydd bellach yn cael o leiaf 21 diwrnod o rybudd cyn adnewyddi a lansio cynllun a fydd yn ei gwneud hi'n haws i gwmnïau sydd â record da o ran iechyd a diogelwch i gael gafael ar Yswiriant Atebolrwydd Gorfodol Cyflogwyr (YAGC) fforddiadwy. Fodd bynnag, mae hi'n amlwg o'r adroddiad hwn fod llawer i'w wneud eto.

Fel y cyfryw, nid yw'r ddogfen hon yn darparu atebion, dim ond ceisio darparu ffenestr ar y broblem o safbwynt busnesau bach ac ysgogi trafodaeth a dadl nid yn unig o blith Aelodau'r Cynulliad, ond hefyd, eu cydweithwyr yn San Steffan, gwneuthurwyr-penderfyniadau a busnesau eraill.

Methodoleg

Holiadur oedd ffurf yr arolwg. Dewiswyd yr aelodau ar hap o gronfa ddata Aelodaeth FfBB Cymru.

Cynhaliwyd yr arolwg dros y ffôn gydag aelodau yn ystod oriau gwaith arferol. Cysylltwyd â naw cant o aelodau er mwyn casglu'r data ehangaf posibl. Cynhwyswyd 33 o wahanol sectorau cyflogaeth. Ar ddiwedd sesiwn casglu data'r arolwg, cafwyd 303 o holiaduron wedi'u cwblhau, sy'n cynrychioli graddfa ymateb o 34%. Mae'r raddfa uchel hon yn cymharu'n ffafriol ag arolygon eraill sy'n defnyddio dulliau casglu data gwahanol ac mae'n ddangosydd posibl o broffil y mater o blith busnesau bach yng Nghymru.

Tabl 1. Ymatebion sector cyflogaeth

Sector Cyflogaeth	***Canran***
Manwerthu/Cyfanwerthu	*22%*
Adeiladu	*18%*
Cyfrifyddeg	*15%*
Gwestai, Bwytai a Thafarnau	*8%*
Cynhyrchu	*8%*
Gwasanaethau	*5%*
Amaethyddiaeth	*6%*
Gwasanaethau Busnes	*3%*
Gwasanaethau Cyllidol	*3%*
Trafnidiaeth	*2%*
Ynni a Dŵr	*2%*
Penseiri	*2%*
Lles Anifeiliaid	*2%*
Technoleg	*1%*
Sectorau Eraill	*3%*

Y sector unigol mwyaf a gynrychiolwyd yn yr arolwg oedd sector Manwerthu a Chyfanwerthu a gwelwyd hyn hefyd yn arolwg *Codi'r Rhwystrau i Dyfiant mewn Busnesau Bach Cymreig 2004*. Yn fater o syndod efallai oedd mai'r sector mwyaf wedyn oedd sector Adeiladu, yna cyfrifyddiaeth a'r sector lletygarwch.

Oddi mewn i'r ymatebion ni nodweddwyd cynhyrchu i'r graddau a ddisgwyliwyd gydag ond 8% o'r atebwyr yn dod o'r sector hwn. Daw tua 13% o aelodaeth FfBB o'r sector cynhyrchu.

Tabl 2. Ymatebion gan Awdurdodau Unedol fel % o holiaduron a gwblhawyd.

Awdurdod Unedol	**Canran**
Ynys Môn	*4%*
Blaenau Gwent	*2.3%*
Penybont-ar-Ogwr	*2.3%*
Caerffili	*6.4%*
Caerdydd	*4.9%*
Sir Gaerfyrddin	*5.2%*
Ceredigion	*5.9%*
Conwy	*3.9%*
Sir Ddinbych	*5.2%*
Sir y Fflint	*5.2%*
Gwynedd	*9.5%*
Merthyr Tudful	*2.6%*
Sir Fynwy	*2.9%*
Castell Nedd Port Talbot	*4.6%*
Casnewydd	*4.2%*
Sir Benfro	*8.9%*
Powys	*6.2%*
Rhondda Cynon Taf	*3.3%*
Abertawe	*5.6%*
Torfaen	*1%*
Bro Morgannwg	*3.3%*
Wrecsam	*2.6%*

Gwnaed cyswllt cychwynnol dros y ffôn ac wedi hynny, casglwyd holiaduron oddi wrth aelodau ym mhob un o'r 22 Awdurdod Unedol yng Nghymru er mwyn rhoi dosbarthiad daearyddol cyflawn i'r canlyniadau. Dangosir dadansoddiad daearyddol cyflawn o'r ymatebion yn Nhabl 2.

"Yr ydym o hyd yn poeni am yr effaith y gallai'r posibilrwydd o hawliad yn ein herbyn ei gael ar y busnes". *Cartref Nyrsio, Casnewydd*

Tabl 3. Ymatebion gan nifer o gyflogedigion a ddangosir fel % o gyfanswm yr ymatebion.

Nifer y cyflogedigion	Canran
0 – 10	*81%*
11 – 20	*12%*
21 – 40	*6%*
41 – 100	*1%*
100 +	*Nil*

Er i ni gynnwys cyflogwyr mawr yn y sampl, mewn gwirionedd, ni chwblhaodd neb oedd â mwy na 100 o staff yr arolwg. A derbyn cyfansoddiad BBCh yng Nghymru, nid yw hyn yn fater o syndod.

Daeth mwyafrif yr ymatebion oddi wrth sefydliadau yn y grŵp 1-10 o gyflogedigion. Rhoddir dadansoddiad cyflawn yn ôl aelodau staff yn Nhabl 3.

Canlyniadau

Cwestiwn 1; "Ydy premiwm eich yswiriant atebolrwydd wedi codi'n sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?".

> ***"Mae ein hyswiriant wedi mynd i fyny dros 40% ers Medi'r 11^{eg}"*** *Cwmni Adeiladu, Penybont-ar-Ogwr.*

Tabl 4: Amrywiant Yswiriant

Cynnydd y Premiwm Yswiriant o ran	Canran
Oes	*47%*
Nag oes	*7%*
Wedi aros tua'r un peth	*43%*
Nid oes gennyf yswiriant	*3%*

Cadarnhaodd bron i hanner yr aelodau a holwyd fod cynnydd wedi bod yn eu premiwm atebolrwydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae nifer sylweddol yr ymatebion yn tanlinellu yn eglur y baich ariannol parhaol a chynyddol a osodir ar fusnesau bach gan bremiymau yswiriant gorfodol. Dywedodd 43% arall o atebwyr fod eu hyswiriant wedi aros tua'r un peth.

Dim ond 7% ddywedodd fod eu hatebolrwydd yswiriant wedi mynd i lawr, er y gwelwyd bod hyn yn bennaf oherwydd lleihad o ran gweithgaredd busnes, yn hytrach na lleihad o ran atebolrwydd yswiriant *per se*.

Mater o bryder oedd y 3% o aelodau nad oedd ganddynt unrhyw yswiriant atebolrwydd. Pe allosodir y ganran hon i'r holl aelodaeth yng Nghymru, buasai'n dangos fod dros 200 o sefydliadau yn gweithredu heb unrhyw sicrwydd yswiriant, ac o bosibl felly, yn anghyfreithlon. Yng nghanlyniadau'r arolwg, roedd nifer fechan o sefydliadau yn gweithredu o ganolfannau cartref nad oedd angen sicrwydd.

Yn gyffredinol, roedd cyflogwyr yn y sector adeiladu yn teimlo fod premiymau yswiriant wedi *"codi'n aruthrol yn y fasnach adeiladu".* Teimlwyd fod y codiadau yn cael effaith ôl-ddilynol wrth i brisiau cael eu codi mewn ymgais i adennill peth o'r cynnydd mewn maes lle mae ffiniau gweithredu yn gynnil.

O'r atebwyr a ddywedodd fod eu costau yswiriant wedi codi, dywedodd 60% mai canlyniad cynnydd mewn premiymau yn gyffredinol oedd y cynnydd, gydag ond 6.5% yn dweud mai codi lefel oedd y sicrwydd oedd y cynnydd. Dangosir dadansoddiad o'r rhesymau am y costau yswiriant uwch yn *Nhabl 5* isod.

Tabl 5. Rhesymau dros godiadau mewn yswiriant wedi'u dangos fel % o ymatebion cadarnhaol.

Rhesymau am y Cynnydd	**Canran**
Premiymau Uwch	*60%*
Helaethiad/Tyfiant y Busnes	*17%*
Hawliadau Yswiriant yn yr Arfaeth	*9%*
Lefel Sicrwydd uwch	*6.5%*
Rheoliadau Iechyd a Diogelwch	*4%*
Rhesymau eraill	*3.5%*

"Nid ydym yn teimlo fod dewis gyda ni. Mater o dalu lan neu fynd i'r wal yw hi" *Canolfan Weithgareddau, Powys*

Cwestiwn 2; "Ydych chi wedi newid y cwmni yr ydych yn ei ddefnyddio ar gyfer eich yswiriant?".

Er gwaethaf premiymau yn mynd i fyny, arhosodd aelodau yn ffyddlon i'w cwmnïau yswiriant gydag 83% yn aros gyda'i darparydd gwasanaeth. Roedd peth pryder o blith nifer o aelodau, eu bod yn teimlo mai ychydig o ddewis oedd a'u bod yn teimlo eu bod wedi'u 'clymu i mewn' i gytundebau yswiriant gyda chwmni arbennig. Yn ogystal, dywedodd nifer sylweddol eu bod wedi aros gyda'u hyswiriwr am na roddwyd amser digonol i siopa o gwmpas ar ôl hysbysiadau adnewyddu.

O'r aelodau a newidiodd eu hyswiriwr, newidiodd 28% oherwydd dyfynbris rhatach. Dangosir dadansoddiad o'r rhesymau am newid darparwyr yswiriant yn Nhabl 6.

Tabl 6. Rhesymau dros newid yswiriwr fel % o ymatebion cadarnhaol.

Rhesymau dros Newid	Canran
Premiymau Uwch	*32%*
Dyfynbris Rhatach	*28%*
Argymhelliad	*18%*
Yswiriwr Arbenigol	*10%*
Rhesymau eraill	*12%*

Tabl 7. Lefelau digonol o sicrwydd wedi'u dangos fel canran o gyfanswm yr ymatebion.

Cwestiwn 3; "Ydych chi'n meddwl fod ganddoch chi sicrwydd digonol ar gyfer y risgiau yr ydych yn eu hwynebu?"

Ymateb	Canran
Ydyn	*93%*
Nag ydyn	*5%*
Ddim yn gwybod	*2%*

Er gwaethaf baich ariannol hollbwysig premiymau yswiriant, ymatebodd 93% drwy ddweud eu bod yn teimlo fod ganddynt sicrwydd digonol ar gyfer y risgiau a oedd yn ymwneud â'u busnesau. Mae hyn yn dangos yn eglur eu hymwybyddiaeth o'u cyfrifoldebau fel cyflogwyr. Mater o bryder oedd y 5% a atebodd gan ddweud eu bod yn teimlo nad oedd ganddynt sicrwydd digonol ond eu bod wedi'u hyswirio i fyny i'w gallu i dalu.

Gellid bod y 2% o aelodau a ddywedodd nad oeddent yn gwybod os oedd eu sicrwydd yn ddigonol yn talu gormod am sicrwydd ac felly llwytho costau dianghenraid arnynt eu hunain. Os felly, yna gellid dadlau bod cyfrifoldeb gan y cwmnïau yswiriant i wneud adolygiadau busnes rheolaidd gyda'u cleientiaid.

Tabl 8. Ymwybyddiaeth Ddigonol gan y Llywodraeth fel % o'r atebwyr

Ymateb	Canran
Oes	*3%*
Nag oes	*52%*
Ddim yn gwybod	*45%*

Cwestiwn 4; "Ydych chi'n meddwl fod y Llywodraeth yn ddigon ymwybodol o'r mater hwn?"

"Pam fo'r Llywodraeth yn ein trethu ni ar yswiriant?" *Gwestywr, Powys.*

Roedd mwyafrif yr atebwyr yn teimlo mai ychydig neu ddim o gwbl oedd dealltwriaeth y Llywodraeth ar y mater hwn. Roedd dros hanner yr atebwyr yn teimlo fod ymwybyddiaeth y Llywodraeth yn annigonol gydag ond 3% yn teimlo fod y Llywodraeth yn ymwybodol neu'n ymatebol. Dywedodd llawer o atebwyr eu bod yn teimlo nad oedd yn ymddangos fod gan naill y Cynulliad na Llywodraeth y DU unrhyw ymrwymiad i fynd i'r afael â'r problemau a achoswyd gan bremiymau atebolrwydd cyflogwyr a oedd llawer yn rhy uchel a phan ofynnwyd iddynt, nid oeddent yn gallu enwi unrhyw flaengareddau.

Tabl 9. Cynlluniau ehangu yr effeithiodd codiadau mewn premiymau arnynt fel % o ymatebion.

Cwestiwn 5; "Ydy premiymau uwch wedi effeithio ar gynlluniau ehangu hyd yn hyn?"

Ymateb	Canrannau
Ydyn	*13%*
Nag ydyn	*87%*

"Mae costau yswiriant wedi ein criplo ni a'n rhwystro ni rhag bod yn gwmni proffidiol". *Cwmni Gosod Tanwydd, Morgannwg Ganol.*

"Nid yw'r cynlluniau a oedd gennym dair blynedd yn ôl yn gymwys bellach" *Cynhyrchydd, Bangor*

Er na ddangosodd yr ymatebion fod y mwyafrif o gwmnïau wedi gorfod ailfeddwl unrhyw gynlluniau ehangu o ganlyniad uniongyrchol premiymau atebolrwydd cyflogwyr uwch fel mater unigol, o'r atebwyr hynny a ddywedodd nad oedd costau uwch am yswiriant wedi effeithio ar gynlluniau ehangu, mynegodd nifer sylweddol y farn petai costau premiymau yn dal i fynd i fyny, yn buasent yn effeithio ar ehangu yn y dyfodol.

Mater o bryder oedd fod un atebwr ym mhob deg wedi dweud fod costau cynyddol yswiriant wedi effeithio ar eu cynlluniau ehangu busnes eisoes. Mae hyn y codi pryderon sylweddol ynglŷn ag argyfwng premiymau yswiriant atebolrwydd cynyddol a gallu nifer o fusnesau bach i ysgwyddo'r fath feichiau o ran costau.

Canlyniad

Mae'r astudiaeth yn dangos yn fyr fod y cynnydd parhaus mewn costau yswiriant yn faes o bryder sylweddol i fusnesau ar draws y sbectrwm galwedigaethol ledled Cymru gyfan. Yn ogystal, mae'r canlyniad hwn wedi'i gadarnhau gan ganlyniadau adroddiad *Codi'r Rhwystrau i Dyfiant mewn Busnesau Bach Cymreig 2004* a gwaith parhaus FfBB.

Er gwaethaf costau cynyddol, roedd mwyafrif llethol yn ystyried fod ganddynt sicrwydd yswiriant digonol, ond wrth weithredu yn y modd cyfrifol yma a chynnal lefelau priodol o sicrwydd, roedd proffidioldeb yn cael ei aberthu.

Dywedodd llawer o fusnesau eu bod yn teimlo nad oedd ganddynt unrhyw ddewis ond talu premiymau llawer yn uwch a gwnaethant rybuddio, er ei bod yn bosibl ysgwyddo'r baich hwn yn y tymor byr, nad oedd hyn yn ymarferol yn y tymor hir.

Er i nifer annisgwyl o fusnesau ddatgan fod eu premiwm yswiriant wedi aros tua'r un peth dros y flwyddyn ddiwethaf, dywedodd 47% ei fod wedi codi ac, a hyn yn fater o bryder, dim ond 7% ddywedodd fod eu premiwm wedi mynd i lawr.

Dywedodd mwyafrif llethol yr atebwyr eu bod yn teimlo fod ganddynt sicrwydd digonol ar gyfer risgiau cysylltiedig eu busnesau, ond er eu bod yn ganran bach, dywedodd nifer nad oeddent yn gwybod os oedd ganddynt sicrwydd digonol. Gall hyn olygu eu bod yn talu gormod am yswiriant atebolrwydd ac mae hi'n fater o bryder y bydd busnesau ond yn darganfod hyn os gwneir hawliad yn eu herbyn.

Roedd hi'n amlwg fod busnesau yn teimlo nad oes fawr ddim ymwybyddiaeth o ran y gwleidyddwyr am y problemau y mae premiymau yswiriant uwch yn eu creu. Teimlai rhai fod hyn yn teilyngu ymyrraeth gan y Llywodraeth tra roedd eraill ond yn ffafrio mwy o ymyrraeth boliticaidd yn y broblem.

Dywedodd nifer o atebwyr fod y codiadau wedi bod yn fwy amlwg wedi ysgelerderau'r terfysgwyr yn Efrog newydd ar Fedi'r 11^{eg} 2001 ac mewn tipyn mwy na hanner yr holl achosion, dyfynnwyd premiymau uwch fel rheswm am gostau uwch at ei gilydd, a dilynwyd hyn gan ehangiadau yn y busnesau. Dim ond 6.5% ddyfynnodd newid i lefel y sicrwydd a amlinellwyd yn eu polisi fel rheswm dros gostau yswiriant uwch.

Mae busnesau wedi sôn nad yw'r broblem ar ben ei hun wedi effeithio yn gyffredinol ar gynlluniau ehangu hyd yn hyn ond rhybuddiodd nifer na ellir cynnal y sefyllfa gyfredol a gall yn wir beri iddynt ailystyried cynlluniau ar gyfer ehangu at y dyfodol. Yn ogystal, mae nifer o fusnesau eisoes wedi gorfod ailystyried cynlluniau ar gyfer ehangu at y dyfodol naill o ganlyniad y costau uwch cyfredol neu oherwydd ofn costau uwch at y dyfodol.

Mae FfBB yng Nghymru yn gobeithio y bydd y ciplun cryno hwn o'r problemau sy'n wynebu busnesau ynglŷn ag ECLI yn darparu defnydd trafod i'r gwneuthurwyr penderfyniadau, y gymuned fusnes a darparwyr Yswiriant. Teimlwn os yw'r gweinyddiaethau priodol ym Mae Caerdydd a San Steffan i gyflawni eu hymrwymiad i hyrwyddo economi busnes bach iach yng Nghymru, bod angen mwy o gydweithrediad â busnesau bach.

Mae rhybudd eglur os yw costau yn parhau i godi yn ddirwystr yn bydd ehangu busnes yn dioddef a bydd hyn er anfantais amlwg cystadleugarwch, proffidioldeb a iechyd cyffredinol yr economi busnesau bach.

Ffederasiwn y Busnesau Bach yng Nghymru
Ebril 2005